

Bwletin Plant a Phobl Ifanc

Newyddlen Trydydd Sector Gwynedd



HAF 2011



LANSIAD SIARTER GOFALWYR IFANC GWYNEDD



action for
children
gweithredu
dros blant

Fel rhan o ddatliadau Wythnos Gofalwyr 2011, cafodd Siarter Gofalwyr Ifanc Gwynedd ei lansio dydd Llun 13eg Fehefin gan brosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd -Gweithredu Dros Blant draw ym mhencadlys Cyngor Gwynedd.

Mae Wythnos Gofalwyr yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r holl ofalwyr sydd yn byw ledled Prydain. Mae'r Siarter, a fydd ar gael i ofalwyr ifanc ledled Gwynedd, yn wasanaeth gwybodaeth i ofalwyr ifanc er mwyn eu helpu i gael gwybodaeth am eu hawliau.

Mae'r Siarter yn rhan o raglen waith Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd sydd yn tynnu sylw at hawliau gofalwyr ifanc ac sydd hefyd yn darparu cefnogaeth a chynghor ar gyfer y bobl ifanc yma. Rhagwelir y bydd y Siarter yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w bywydau fel gofalwyr.

Mae'r gofalwyr ifanc sydd yn rhan o'r prosiect wedi bod yn brysur yn darlunio beth mae Gwir Wynebau Gofalwyr yn ei olygu iddynt.

Bu arddangosfa o waith celf y bobl ifanc ym mhencadlys Cyngor Gwynedd er mwyn

dathlu'r digwyddiad lansio a helpu'r cyhoedd i ddeall beth yw eu hanghenion. Roedd y gwaith celf hefyd yn cael ei arddangos yn y Llyfrgell Rydd yn Nolgellau.

Dyweddodd Glenys Campbell, Rheolwr Prosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd- Gweithredu Dros Blant: "Rydym yn falch iawn o gael y cyfle i weithio gyda Chynghor Gwynedd er mwyn darparu gwasanaeth sydd wirioneddol newid bywydau gofalwyr ifanc. Mae'r Siarter yn ychwanegiad gwych i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gennym ac sy'n allweddol er mwyn galluogi gofalwyr ifanc i ymdopi gyda'r pwysau emosiynol a chorfforol o ofalu am riant neu frawd neu chwaer."

01248 364 614

ask.us@actionforchildren.org.uk

www.actionforchildren.org.uk



GWASANAETH LLOGI OFFER RHAD AC AM DDIM!

Bu i mi sôn wrthyf yn ddiweddar am y wasanaeth llogi offer sy'n cael ei gynnig trwy Mantell Gwynedd i fudiadau Trydydd Sector sy'n gweithio yn y maes plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

Diogelwyd swm o arian cyllid cyfalaf gwasanaethau ieuencid y Cynulliad i brynu amrywiaeth o offer cyfrifiadurol ar gael i'w llogi allan i fudiadau gwirfoddol y sir ar gyfer eu defnyddio hefo pobl ifanc i gynnal gweithgareddau e.e.

gweithdai ffotograffeg, hyfforddiant, grwpiau ffocws, cystadlaethau ayb.

Y gobaith yw y bydd yr offer yn gwella cyflwyniad a chyswllt y

gwasanaethau ieuencid gwirfoddol â'r bobl ifanc hynny maent yn eu cefnogi.

Cofiwch felly fod cyfle i chi **fanteisio** ar y gwasanaeth, sy'n cael ei gynnig yn **rhad ac**

am ddim. Mae'r offer o safon uchel iawn ac yn cynnwys: gliniaduron, argraffwyr wi-fi, camerâu digidol, camerâu fideo a thafunydd.



Mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gyhoeddi ei fod yn un o ddau bartner cenedlaethol yng Nghymru fydd yn darparu'r prosiect O2 Think Big i ieuencid rhwng 12-25 yng Nghymru.

Bydd gan Urdd Gobaith Cymru bron i £80,000 i'w ddsbarthu yn uniongyrchol i bobl ifanc i wireddu prosiectau bach cymunedol. Bydd grantiau yn £300 yr un, gyda chanran yn medru manteisio ar gynllun O2 Think Bigger sydd yn werth £2,500 yr un.

Dros y ddwy flynedd nesaf fe fydd Urdd Gobaith Cymru a O2 Think Big yn anelu i weithio ar 150 o brosiectau cymunedol.

Meddai Dyfrig Morgan, Cyfarwyddwr Ieuencid Urdd Gobaith Cymru:

"Mae gan bobl ifanc syniadau da. Maen nhw'n llawn egni a brwdfrydedd ond mae angen cymorth i droi syniadau yn realiti. Drwy gynllun O2 Think Big byddwn yn gallu cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arian. Mae'r cynllun yn credu y gall pobl ifanc wneud gwahaniaeth o fewn eu cymunedau



ac mae am gynorthwyo pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial ac i ysbrydoli eraill. Mae'r Urdd yn hynod falch o fod yn rhan o'r cynllun yma sydd yn rhoi cymorth, ffydd a hyder i bobl ifanc weithio yn uniongyrchol er budd eu cymunedau."

Bydd pobl ifanc yn gallu ymgeisio am grantiau drwy gydweithio gyda rhwydwaith staff ieuencid yr Urdd ledled Cymru, yn Swyddogion

Ieuencid Llwybrau i'r Brig a Swyddogion Datblygu Urdd Gobaith Cymru. Pan fydd prosiect yn cael ei awdurdodi bydd y grŵp yn derbyn hyd at £300 o grant, ffon symudol a gwerth £30 o gredit, mynediad i hyfforddiant a chymorth ar lein O2 a chyfle i geisio am arian O2 Think Bigger, sy'n werth £2,500 ac yn gyfle i symud eu syniadau ymlaen i lefel uwch.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun, ewch i wefan o2.co.uk/thinkbig neu cysylltwch yn uniongyrchol a:

Siân Eleri Davies 07976 330 360

sianeleri@urdd.org

Angharad Prys 07976 330 361

angharadprys@urdd.org

Non Tudur 07976 003 341

nontudur@urdd.org

Uned Symudol Mantell Gwynedd!

Bu Mantell Gwynedd yn llwyddiannus yn eu cais i gael Uned Symudol er mwyn hybu gwasanaethau'r Trydydd Sector yn ein hardaloedd gwledig. Bydd yr uned yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth rhwng Mantell Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gall mudiadau logi'r uned ar gyfer digwyddiadau, unai ar eu pennau eu hunain neu mewn cydweithrediad â mudiadau eraill. Bydd tudalen arbennig ar gyfer yr uned ar wefan Mantell ynghyd â chalendr llogi/defnydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn llogi'r uned, cysylltwch â Medwyn ar 01286 672626 neu ymholiadau@mantellgwynedd.com



ADNODDAU A DEFNYDD O'R UNED

Gliniadur, Argraffydd Lliw diwifr, Band llydan symudol, teledu 32" a Chwaraewr DVD, Gofod Arddangos, Cegin Fechan, Toiled. Ystafell i gynnal ymgynghoriadau cyfrinachol neu ar gyfer profion gwaed, pwysau gwaed ac ati. Uned ddelfrydol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ein cymunedau gwledig.

HOFFI DREIFIO A CHYFARFOD POBL?

Diddordeb mewn gwirfoddoli?

Mae Mantell Gwynedd angen gwirfoddolwyr i ddreifio'r Uned Symudol a helpu gyda rhannu gwybodaeth. Os oes ganddoch ddiddordeb cysylltwch â :

Rhianon neu Medwyn ar 01286 672 626 (Swyddfa Mantell Gwynedd).



Bu cynllun Twf ar ymweliad â Charnifal Bangor gyda'r trelar teithiol i rannu cylchgrawn newydd sbon Twf gyda rhieni babanod bach.

Mae cynllun Twf yn annog a chynnig cefnogaeth i rieni siarad Cymraeg yn y cartref gyda'r babi o'r

cychwyn cyntaf. Mae cylchgrawn newydd o'r enw "Twf A Chi" wedi ei gyhoeddi er mwyn ateb cwestiynau rhieni ar sut i gyflwyno'r Gymraeg yn y cartref. Mae'n llawn lluniau lliwgar a chyngor gan rieni, bydwragedd, ynghyd â'r arbenigwr byd eang ar ddwyieithrwydd, yr Athro Colin Baker o Brifysgol Bangor, ac mae wedi ennyn ymateb da gan rieni.

Rhai o'r rhieni dderbyniodd gopi o'r cylchgrawn oedd Anne a Gerallt Jones, rhieni i Ffion, 5 oed, a Tomos sy'n 15 mis oed. Mae'r straeon yn y cylchgrawn yn berthnasol iawn i'w sefyllfa fel teulu gan iddynt wneud y penderfyniad i gyflwyno'r Gymraeg i'r plant o oedran ifanc.

"Mae Gerallt yn siarad Cymraeg gyda'r plant drwy'r amser" meddai Anne a finnau'n siarad Saesneg yn bennaf. Mae nain a thaid yn siarad Cymraeg gyda nhw hefyd, ac rwyf innau'n dysgu ambell air. Mae Ffion yn dod adref o'r ysgol ac yn parhau yn y Gymraeg ac yn esbonio wrthyf beth mae'r geiriau'n feddwl. Fe wnaethom ni hefyd ddewis eu hanfon i feithrinfa Gymraeg fel eu bod yn cael sylfaen da cyn dechrau'r ysgol.

Bydd trelar Twf ar daith mewn sawl carnifal a sioeau ar draws Cymru, gan gynnig lle cyfforddus i fwydo a newid y babi, a lle i'r rhieni ymlacio, ac wrth gwrs cynnig cyngor ar siarad Cymraeg â'r babi. Am fwy o wybodaeth am gynllun Twf a gweithgareddau yn yr ardal leol ewch i twfcymru.com neu ffonio Elizabeth Woodcock, Swyddog Twf yn Arfon - 07966 936203.



Bwriedir cynnal Wythnos Ni, sef Wythnos Plant a Phobl Ifanc Gwynedd, eleni rhwng 19 a 26 Hydref 2011. Prif themau'r wythnos fydd Dathlu Teuluoedd Gwynedd.



Bydd yr wythnos yn cael ei drefnu unwaith eto eleni gan Grŵp Llywio aml-asiantaethol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio ar y 13eg Fehefin a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 12fed o Orffennaf.

Os hoffech fod yn aelod o'r Grŵp Llywio a chyfrannu at y gwaith o gynllunio a threfnu'r wythnos, yna cysylltwch gydag Iwan Morris, Cymhorthydd Strategol ar (01286) 679653 neu IwanGwynMorris@gwynedd.gov.uk os gwelwch yn dda.



Bydd Mantell Gwynedd yn llogi gofod ar faes yr Eisteddfod ar gyfer mudiadau gwirfoddol y sir yn ystod yr ŵyl fis Mehefin nesaf yng Nglynllifon ger Caernarfon. Os hoffech chi rannu stondin gyda Mantell Gwynedd, dyma gyfle i ddatgan eich diddordeb! Cysylltwch â ni gyda manylion eich mudiad:

Enw / Mudiad/ Cyfeiriad/ E-bost/ Ffôn

Cofiwch, y cyntaf i'r felin...



Afonwch eich manylion yn ôl at:

Carwyn Humphreys neu Mirain Roberts,

Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 2RB

E-bost- carwynhumphreys@mantellgwynedd.com / mirainroberts@mantellgwynedd.com

Ffôn : 01286 672626.



GRANTIAU / ARIANNU

GwirVol



Nod cynllun 'grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc'- GwriVol yw cefnogi gweithgareddau a phrosiectau gwirfoddol bach, a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc.

Gellir ymgeisio am grant hyd at uchafswm o £500* i gefnogi gwirfoddoli neu sefydlu gweithgaredd gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis a'u hargymell gan banel o bobl ifanc rhwng 16-25 oed.

Dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisio am y grant yw **30ain Fedi 2011**.

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Mirain Roberts yn Mantell Gwynedd

01286 672 626 / mirain@mantellgwynedd.com



Grantiau Chwarae Bach

Hoffech chi fel mudiad neu grŵp cymunedol drefnu digwyddiad ar gyfer plant a/neu bobl ifanc? Gall grantiau Chwarae Bach ariannu diwrnod neu ddigwyddiad hwyl yn eich cymuned sydd yn hyrwyddo chwarae a chefnogi'r pwysigrwydd o chwarae.

Gallwch geisio am grant hyd at uchafswm o £100 tuag at eich digwyddiad.

Am ffurflen wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â:

Carwyn Humphreys (Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc)

carwynhumphreys@mantellgwynedd.com

01286 672626

Grants

Apply for a grant
Our next deadline is 15 July



Grant Plant mewn Angen

Mae Gwynedd yn ardal sydd wedi ei dargedu ar gyfer cynllun Grantiau Bach 'Plant Mewn Angen'. Anelir y grantiau yma tuag at grwpiau cymunedol bychain a hoffai ddechrau rhaglen neu gynllun ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gymuned leol.

Mae'r cynllun yn gallu darparu grantiau rhwng £50 i £10,000 y flwyddyn hyd at 3 mlynedd.

<http://www.bbc.co.uk/pudsey/grants/>

Defnyddiwch y cyswllt uchod i ddarganfod mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar gyfer y grantiau

Hyfforddiant Training

Un o ddyletswyddau'r swydd hwylusydd plant a phobl ifanc yw ymateb i anghenion hyfforddiant maes plant a phobl ifanc y trydydd sector yng Ngwynedd.

Gweler isod restr o sesiynau hyfforddiant y bwriedir eu trefnu yn ystod y flwyddyn:

- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid
- Cwrs Amddiffyn Plant
- RBA (Results Based Accountability)

Os oes gennych ddi-ddordeb mynychu unrhyw un o'r sesiynau uchod, cysylltwch â Carwyn Humphreys yn Mantell Gwynedd.



CWMNI COFIS BACH

Mae Cofis Bach/Cofis Mawr yn brosiect celfyddydol poblogaidd i blant a phobl ifanc Ward Peblig, Caernarfon ar gyfer 5 oed i 18 oed.

Grŵp sydd wedi dod at ei gilydd o dan ambarél Eglwys Noddfa i roi cyfle i bobl ifanc gael dangos eu doniau actio neu gerddorol, ac maent wedi rhoi amryw o berfformiadau gwerth chweil ymlaen, yn y Galeri yng

Nghaernarfon, ac yn y Ganolfan, yn cynnwys "Hel Bent a'r Helen" ac ym mis Ebrill bu sioe Cofi Syrcas- Troia a Throi ei chynnal ym Maesincla gyda chefnogaeth gan gwmni Syrcas Syrcas.

Bu ein aelod seneddol, Hywel Williams AS yno yn cefnogi a llongyfarch y plant a'r bobl ifanc am y sioe anhygoel a gafwyd ar noson braf o wanwyn gyda'r pabell syrcas yn orlawn gyda cynulleidfa o gefnogwyr, rhieni a phlant yr ardal.

Am ragor o wybodaeth am Cwmni Cofis Bach, cysylltwch â:

Judith Humphreys neu Sioned Huws

01286 672 257





Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf o Rhwydwaith PLant a Phobl Ifanc Gwynedd ym mis Medi.

Nid oes dyddiad wedi bennu eto ond gobeithir cynnal cyfarfod arbennig ar y cyd gyda'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal a Lles Gwynedd. Byddwn yn anfon gwahoddiadau i'r cyfarfod yn ystod mis

Gorffennaf.

Cofiwch, os oes gennych chi unrhyw awgrym neu syniad ar gyfer siaradwr gwâdd neu destun yr hoffech ei drafod yn y cyfarfod, cysylltwch os gwelwch yn dda.

I leihau ein ôl troed carbon, fe hoffwn anfon y bwletin plant a phobl ifanc yn electroneg yn y dyfodol.

Os oes gennych fynediad i e-bost, rhowch wybod i ni yma ym Mantell Gwynedd a gobeithiwn yrru'r wybodaeth i'ch cyfrifiadur y tro nesaf!



Mae'r bwletin eich angen chi!

Un o ddyletswyddau'r swydd Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc yw hysbysebu'r sector o fentrau newydd, bwydo yn ôl materion gan mudiadau i'r rheiny sydd yn gwneud penderfyniadau a chasglu llais y sector mewn perthynas â pholisïau newydd, canllawiau neu ddogfennau. Hefyd, ceir cyfleoedd i drefnu sesiynau ymgynghori ar ddogfennau strategol. Mae'r sector yn cael ei chynrychioli trwy'r swydd ar bartneriaethau er mwyn sicrhau llais i'r sector.

Cynrychiolir y sector trwy'r swydd yma ar bartneriaethau a phwyllgorau perthnasol i faes plant a phobl ifanc gan sicrhau fod gan y sector lais. Ceir cyfle i ethol cynrychiolwyr o'r Rhwydwaith i eistedd ar is-grwpiau'r pwyllgorau hyn. Mae cyfle i'r swydd hybu'r safon o waith ac amrywiaeth o brosiectau sydd yn bodoli ar draws y sir.

Hoffech chi rannu unrhyw wybodaeth neu lwyddiant gyda'r sector?

Beth bynnag sydd gennych i'w rannu, colofn ar gael i chi wneud hynny!



Carwyn Humphreys

Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc

carwynhumphreys@mantellgwynedd.com

01286 672 626

Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1AB

